

## JONES, MICHAEL DANIEL (1822 - 1898), gweinidog gyda'r Annibynwyr a phrifathro Coleg Annibynnol y Bala

**Enw:** Michael Daniel Jones

**Dyddiad geni:** 1822

**Dyddiad marw:** 1898

**Priod:** Anne Jones (née Lloyd)

**Plentyn:** Mair Onwen erch Iwan

**Plentyn:** Llwyd ap Iwan

**Plentyn:** Mihangel ap Iwan

**Rhiant:** Michael Jones

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr a phrifathro Coleg Annibynnol y Bala

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg

**Awdur:** Richard Griffith Owen

Mab y [Parch. Michael Jones](#). Ganwyd 2 Mawrth 1822 yn nhy'r Hen Gapel, Llanuwchllyn. Addysgwyd ef y ddechrau yn ysgol ei dad; yn 15 oed aeth yn brentis o ddilledydd i siop yn Wrecsam, ond ychydig fisoedd a fu yno. Yn 1839 aeth i Goleg Caerfyrddin i baratoi ar gyfer y weinidogaeth; wedi pedair blynedd yno aeth i Goleg Highbury yn Llundain. Yn 1847 ymwelodd ag America; urddwyd ef yno yn weinidog ar eglwys Gymraeg yn Cincinnati, Ohio. Ymddiddorodd yn helyntion y Cymry a ddylifai i'r wlad bryd hynny, a chymerth ran amlwg yn ffurfio Cymdeithas y Brython oedd â'i hamcan i gynorthwyo ymfudwyr o Gymru, a bu'n ysgrifennydd iddi. Wedi dychwelyd i Gymru ymsefydlodd yn 1850 yn weinidog y Bwlchnewydd a Gibeon, Sir Gaerfyrddin. Ar farwolaeth ei dad penodwyd ef yn olynydd iddo fel prifathro'r coleg a gweinidog ar eglwysi'r Bala, Tyn-y-bont, Bethel, Soar, a Llandderfel.

Gyrfa helyntus a fu iddo fel i'w dad, a gorfu iddo fynd drwy helynt ffyrnicach hyd yn oed na'r un y magwyd ef yn ei swm. Buan y daeth i wrthdarwiad ar fater llywodraethu'r coleg, ac o hynny y datblygodd y frwydr fawr a adnabyddir fel brwydr y Ddau Gyfansoddiad (1879-85), ac yr oedd anghydfod personol rhyngddo ef â rhai o wyr blaenaf yr enwad yn gymhleth â hi. Mynnai ef mai yn nwylo'r tanysgrifwyr at y coleg yr oedd y llywodraeth i fod, ond daliai ei wrthwynebwyr mai pwyllgor o gynrychiolwyr y cyfundebau sirol a ddylai fod â'r awdurdod i lywodraethu. Prif arweinydd yr wrthblaid oedd y [Dr. John Thomas](#), Lerpwl, a fynnai, yn ôl M. D. Jones, bresbytereiddio'r enwad. Aeth y ddadl i'r eglwysi a bu cynnwrf drwy'r wlad ben bwy gilydd. Galwyd plaid M. D. Jones yn Blaid yr Hen Gyfansoddiad a'r blaid arall yn Blaid y Cyfansoddiad Newydd. Gwaethygid pethau'n ddirfawr drwy i M. D. Jones gymryd rhan mor flaenllaw yn y mudiad i sefydlu gwladychfa Gymreig ym Mhatagonia; cymhellid ef i hyn gan ei ysbryd cenedlaethol a'i wladgarwch a'r radicaliaeth a fagwyd ynddo gan ormes tîrfeddianwyr Toriaidd Cymru. Ysyaeth, collodd arian lawer yn yr ymgyrch, a dirwasgwyd ef yn ei amgylchiadau, a chyhuddid ef am iddo werthu Bodiwan, ei gartref a'r lle y cynhelid y coleg, i'r pwyllgor er cwrdd â'r gofynion. Llwyddodd yr wrthblaid i basio'r cyfansoddiad newydd, ond gwrthodai yntau ei gydnabod ac mewn pwyllgor yn Amwythig (1879) - '

Pwyllgor y Torri Pen ' - diswyddwyd ef fel prifathro. Am ysbaid ar ôl hynny bu dau goleg gan yr Annibynwyr yn y Bala, y naill dan ofal M. D. Jones ym Modiwan a'r llall, eiddo'r cyfansoddiad newydd, ym Mhlasyndre, dan ofal y [Parch. T. Lewis](#), a symudwyd i Fangor yn 1886. Yn y diwedd llwyddwyd i uno'r ddau goleg ond caniatâwyd i M. D. Jones aros yn y Bala i ofalu am adran y flwyddyn gyntaf; ni olygodd hynny iddo newid modfedd ar ei safle. Ymddeolodd yn 1892 er hwyluso'r trefniant i gael un coleg ym Mangor a adnabyddir fel Coleg Bala-Bangor.

Yr oedd yn ymladdwr wrth natur, ac nid hawdd ganddo oddef i neb ei wrthwynebu; cenedlaetholwr pybyr - ef oedd tad y deffroad cenedlaethol Cymreig; ffeiddiai Sais -addoliaeth ac 'iddo ef ac [Emrys ap Iwan](#) yn fwyaf arbennig y mae'r clod am droi gwladgarwch Cymreig yn genedlaetholdeb egniol ymarferol.'

Bu farw 2 Rhagfyr 1898, a chladdwyd ef ym mynwent Hen Gapel, Llanuwchllyn.

## Awdur

Y Parchedig Richard Griffith Owen, (1890 - 1973)

## Ffynonellau

E. Pan Jones, *Oes a Gwaith y Prif Athraw y Parch. Michael Daniel Jones, Bala* (Bala 1903)

R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 134, 168, 185

R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, Cyfrol 1, 1789-1843* (Caerdydd 1933), 25, 51, 97

R. Bryn Williams, *Cymry Patagonia* (Aberystwyth 1942)

G. D. Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr* (1939)

*Cymry Enwog bywgraffiadau byrion* (Caerdydd 1944)

*Oriel Coleg Caerfyrddin* (1909), 60

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i, 424; iii, 395,

*Llawysgrifau Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor* 3618, 3619-21, a'r Coetmor Papers

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Michael D. Jones](#)

## Delweddau

John Thomas, [Revd Michael D Jones \(1822-98\)](#)

E. C. Mountford, [Michael D. Jones](#)

LIGC: [Prifathro Michael D. Jones](#)

LIGC: [The Rev. Michael D. Jones Founder of the Welsh Colony, Chubut](#)

LIGC: [Y diweddar Barch. Michael D. Jones, Bala](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [78564554](#)

Wikidata: [Q3404290](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.